

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Social research

Nifer: 4/2015

www.cymru.gov.uk

Gwerthuso'r Gronfa Cymorth Dewisol

CRYNODEB O'R PRIF ADRODDIAD

Gwerthuso'r Gronfa Cymorth Dewisol

CRYNODEB O'R PRIF ADRODDIAD

Blue Alumni Limited

Barn yr ymchwilwyr yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o anghenraid barn Llywodraeth Cymru.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Semele Mylona

Tîm Dadansoddi Llywodraeth Lleol a Chymunedau

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: semele.mylona@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 28 Ionawr 2015

ISBN: 978-1-4734-2838-6

© Hawlfraint y Goron 2015



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Crynodeb

Diben yr adroddiad

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi gwerthusiad proses o'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) yng Nghymru (cyfeirir ati o hyn ymlaen yn yr adroddiad hwn fel 'y Gronfa' neu 'DAF'). Roedd y DAF yn cymryd lle rhannau o'r Gronfa Gymdeithasol a arferai gael ei rhedeg gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) y cyfeirid atynt weithiau fel 'benthyciadau argyfwng' neu 'grantiau gofal cymunedol'.
- 2 Yn 2013 fe wnaeth Llywodraeth Cymru benodi Northgate Public Services (NPS) i weinyddu'r Gronfa ar ei rhan. Caiff NPS eu cynorthwyo gan ddau brif Bartner - Family Fund Trading Limited (FFT) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - a rhwydwaith o Bartneriaid Darparu. Mae'r Partneriaid Darparu hyn yn gallu cyfeirio unigolion at y DAF ac yn eu helpu hwy i gwblhau ceisiadau lle bo hynny'n addas.
- 3 Mae'r Gronfa'n cynnig taliadau grant neu gymorth ar gyfer dau ddiben:
 - (1) Taliadau Cymorth Argyfwng (EAP) i roi help mewn argyfwng neu lle bo fygythiad uniongyrchol i unigolyn neu i iechyd neu les eu teulu.
 - (2) Taliadau Cymorth i Unigolion (IAP) i helpu rhywun i fyw'n annibynnol yn y gymuned ac osgoi'r angen am ofal mewn sefydliad.
- 4 Cafodd NPS y contract am ddwy flynedd ar y cychwyn - gyda dewis i ymestyn am ddwy flynedd bellach - i reoli, gweithredu, gweinyddu a monitro'r cynllun grant. Cyllideb grant blynyddol y Gronfa yw £10.2 miliwn am y ddwy flynedd gyntaf. Ar ôl gweithredu am dros 12 mis, roedd ar Lywodraeth Cymru eisiau asesu pa mor dda oedd y prosesau'n gweithio ac a ellid gwneud unrhyw welliannau o ran effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd.

Amcanion

- 5 Amcanion penodol y gwerthusiad oedd:
 - (1) Asesu a yw'r Gronfa'n cael ei weithredu fel y bwriadwyd iddi, gan gynnwys ymdrin â cheisiadau a gwneud dyfarniadau'n effeithlon ac yn effeithiol; a yw pawb o'r ymgeiswyr posibl yn ymwybodol o'r Gronfa ac yn gallu gwneud ceisiadau'n hawdd; a gedwir at y gofynion adrodd; ac a yw ansawdd data yn dderbyniol.
 - (2) Asesu a yw NPS wedi sefydlu'r Gronfa yn unol â'r cynllun a'r dull gweithredu a fwriadwyd. Mae hyn yn cynnwys ystyried cynhwysedd a chyrhaeddiad y rhwydwaith o Bartneriaid Darparu neu bartneriaid cyfeirio; y prosesau ymgeisio, cyfeirio, asesu ac apelio; a dal gwybodaeth addas ar gyfer monitro.
 - (3) Asesu a yw NPS a'r sefydliad Partner FFT wedi sefydlu'r holl brosesau ariannol disgwyliedig yn iawn ac yn eu gweithredu'n dda.

Mae hyn yn cynnwys ystyried trefniadau rhannu data a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

- (4) Asesu effeithiolrwydd trefniadau presennol ar gyfer ymdrin ag ymholiadau a wneir gan gynrychiolwyr etholedig cleientiaid DAF.
- (5) Tynnu sylw at unrhyw ddiffygion o safbwynt uniondeb ariannol; methiannau i sefydlu'r ymyrraeth fel y bwriadwyd a methiannau a phroblemau wrth weithredu; a, lle bo'n briodol, argymhellion ar gyfer eu datrys neu ar gyfer gwneud gwelliannau eraill i'r cynllun.
- (6) Rhoi asesiad o'r graddau y rhoddir gwerth am arian gan y trefniadau contractio presennol.

Canfyddiadau

- 6 Cafodd rhaglen y Gronfa ei gweithredu mewn cyfnod byr (tua phedwar mis), roedd ar waith yn llawn o fis Ebrill 2013 ac mae ganddi bellach rwydwaith o tua 300 o Bartneriaid Darparu sy'n ymdrin ag amrywiaeth o anghenion cymorth ac yn ymwneud â helpu dinasyddion i gael at y gronfa. Yn ein barn ni, mae'n eithriadol gweld rhaglen o'r fath gymhlethdod a chyrhaeddiad daearyddol yn cael ei rhoi ar waith mor gyflym. Mae Llywodraeth Cymru, NPS, FFT a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn haeddu clod am gyflawni hyn o fewn yr amser a wnaethant.
- 7 Yn y flwyddyn o fis Ebrill 2013 hyd at fis Mawrth 2014, allan o 40,780 o geisiadau i'r Gronfa, cafodd 26,898 eu cymeradwyo a'u talu i unigolion bregus gyda dyfarniadau'n amrywio o £5 i £100 ar gyfer anghenion brys i uchafswm o £4,200 i unigolion a theuluoedd yn troi at fyw'n annibynnol. O'r gwaith yr ydym wedi'i wneud, mae'r dyfarniadau hyn wedi cael eu rhoi ar gyfer y dibenion y bwriadwyd iddynt, fel y nodir yng Nghynllun Llywodraeth Cymru, a chaiff y nifer o ddinasyddion Cymru sy'n derbyn cyllid eu ddsbarthu'n fras yn ôl graddau'r angen ym mhob ardal awdurdod lleol ledled Cymru. Mae'r cyllid wedi cael ei roi ar gyfer dibenion sy'n amrywio o arian am fwyd mewn argyfyngau i gyflenwi oergelloedd, peiriannau golchi, poptai a nwyddau cartref eraill i gefnogi byw'n annibynnol.
- 8 Er nad oedd casglu tystiolaeth ar yr effaith y mae'r gronfa wedi'i gael ar fywydau pobl yn rhan o'r dasg a gawsom¹ roedd pawb o'r Partneriaid Darparu a oedd yn ymwneud â'r DAF y gwnaethom gysylltu â hwy yn ein harolwg yn pwysleisio'r effaith cadarnhaol y mae'r Gronfa wedi'i gael ar bobl fregus mewn angen. Mae'r rhain yn cynnwys achosion fel yr enghreifftiau canlynol:
 - (1) Lle na allai unigolion gael benthyciadau cyllid ar gyfer hanfodion sylfaenol byw oherwydd nad oeddent yn gallu eu had-dalu.

¹ Y dasg a gafodd Blue Alumni oedd asesu'r ffordd y mae'r Gronfa'n gweithio ac effeithiolrwydd ei phrosesau.

- (2) Mewn amgylchiadau eithriadol (gan nad yw teithio fel arfer yn gymwys am gyllid) cyfrannu at gostau teithio tad i fynd â'i fab sy'n dioddef o liwcaemia i'r ysbyty tra oedd yn disgwyl am dderbyn budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau.
 - (3) Darparu gwelyau i fam sengl gyda baban 8 mis oed a oedd yn cysgu ar fatres aer a hefyd ei chyfeirio at asiantaethau cymorth eraill am gyngor pellach.
 - (4) Helpu menyw gyda phedwar o blant i setlo mewn cartref newydd ar ôl ffoi o drais domestig.
- 9 Mae'r sylwadau a dderbyniasom gan Bartneriaid Darparu yn ein harolwg yn cadarnhau'r mathau hyn o effeithiau cadarnhaol a sut y mae dyfarniadau dewisol Llywodraeth Cymru wedi rhoi help gwirioneddol i unigolion bregus.
- 10 Yn ein barn ni, mae'r rhaglen bellach yn ffurfio sylfaen dda i adeiladu arni. Fodd bynnag, fel gydag unrhyw raglen, gellir gwneud gwelliannau bob amser ac nid yw'r DAF yn ddim eithriad. Mae nifer o feysydd lle nad yw prosesau'r Gronfa yn gwbl unol â'r cysyniad gwreiddiol a bennwyd ym manyleb Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae hyn i'w ddisgwyl gan mai dyma'r tro cyntaf i gynllun fel hwn gael ei sefydlu yn Llywodraeth Cymru ac mae gwersi wedi cael eu dysgu wrth ei weithredu, yn rhannol wrth ystyried adborth gan bartneriaid. Rydym wedi nodi, gyda help y rheini sy'n ymwneud â rheoli a gweithredu'r Gronfa, meysydd penodol lle gellid gwella'r prosesau gweithredu neu a fyddai'n elwa o adolygu pellach. O'u crynhoi, mae'r rhain yn cynnwys:
- (1) Defnydd mwy effeithiol o'r rhwydwaith Partneriaid Darparu:
Mae'r data'n awgrymu² bod cleientiaid sy'n manteisio ar gymorth y rhwydwaith Partneriaid Darparu tua 20% yn fwy tebygol o lwyddo i gael dyfarniad ariannu na cheisiadau nas cynorthwyir. Dylai cael rhwydwaith Partneriaid Darparu sydd wedi eu hyfforddi'n dda a'u dosbarthu'n addas ledled Cymru arwain at y canlynol:
 - (a) Lleihad yn y nifer o geisiadau anghymwys gan y byddai'r Partneriaid Darparu yn gallu gwrthod ymgeiswyr anghymwys a'u cyfeirio hwy at ffynonellau eraill o gymorth yn gynnar yn y broses.
 - (b) Mwy o ddefnydd o'r dull rhatach o wneud ceisiadau ar-lein dros y rhyngwyd.
 - (c) Rheolaeth fwy effeithiol o ddisgwyliadau ymgeiswyr cymwys ynghylch lefelau a'r mathau o ddyfarniad a allai fod ar gael iddynt.
 - (d) Mwy o dryloywder ynghylch y penderfyniadau ariannu a wneir a llai o apeliadau.

² O gymharu llwyddiant ceisiadau ar-lein a gynorthwyir gan Bartneriaid Darparu a rhai nas cynorthwyir.

- (e) Mwy o sicrwydd y gall holl ddinasyddion Cymru o bob rhan o'r wlad wybod am y Gronfa a chael ati os bydd angen.

Yn ogystal, gallai Partneriaid Darparu'r DAF o bosibl roi cymorth gwerthfawr ac ehangach i Agenda Taclo Tlodi Llywodraeth Cymru. Maent mewn cysylltiad uniongyrchol â'r dinasyddion mwyaf bregus yng Nghymru ac maent yn gweithio i ddarparu cymorth i wella bywydau pobl. Wrth weithredu rôl gymorth yn y Gronfa ar hyn o bryd, roedd 66% o'r 100 o ymatebwyr a ddangosodd farn yn awyddus i chwarae mwy o ran yn y broses o ddyfarnu cyllid. Gallai Llywodraeth Cymru adeiladu ar y grŵp hwn, o bosibl trwy raglen ar wahân, i helpu gweithredu amrywiaeth o fentrau cysylltiedig.

Rydym o'r farn ei bod hi'n bwysig na chaiff Partneriaid Darparu ychwanegol eu recriwtio ond mewn meysydd diffiniedig o angen a bod gwaith yn cael ei wneud gyda'r Partneriaid Datblygu i gynllunio a datblygu gwaith y DAF yn y dyfodol, a gwelliannau'n cael eu gwneud i'w cofrestru ffurfiol a'u hyfforddiant a'u rolau gweithredu yn y rhaglen. Mater o bwysigrwydd neilltuol yw'r angen i adeiladu ar yr hyfforddiant sydd bellach ar waith i'r rheini sy'n ymwneud â'r Gronfa.

(2) Gwelliannau i brosesau gwneud ceisiadau i'r Gronfa:

Yn gyffredinol, mae gweithdrefnau prosesu ceisiadau'r Gronfa'n gweithio'n dda. Gall unigolion wneud ceisiadau dros y ffôn, ar bapur neu ar-lein. Gall y cynghorwyr yng nghanolfan busnes NPS sgwrsio yn y Gymraeg, Saesneg, amrywiaeth o ieithoedd y Dwyrain Canol ac Asia ac maent hefyd yn gallu cael at gymorth ffôn mewn ieithoedd eraill. Mae cyfleusterau ar gyfer pobl ag anghenion arbennig. Caiff ceisiadau llwyddiannus eu hanfon ymlaen at FFT i'w gwireddu bedair gwaith y dydd yn ystod oriau arferol busnes. Mae'r ymgeiswyr yn cael gwybod yn brydlon beth yw'r penderfyniad ar eu ceisiadau.

Rydym o'r farn fod rhai meysydd lle gellid gwneud gwelliannau. Yn gryno, mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i'r ffurflenni cais, annog mwy o ddefnydd o brosesau cais dros y rhyngwyd a gwneud y broses o benderfynu yn fwy tryloyw trwy roi mwy o fanylion ar y rhesymau pam y caiff ceisiadau eu gwrthod. Byddai'r holl awgrymiadau hyn yn gwella'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithio a gallent o bosibl leihau costau prosesu trwy sicrhau bod mwy o geisiadau'n gymwys ac yn iawn y tro cyntaf.

(3) Cynghorwyr Canolfan Fusnes NPS.

Yr adborth a dderbyniasom gan bartneriaid oedd y gallai staff sy'n gweithredu yng Nghanolfan Fusnes NPS reoli a diwallu disgwyliadau Partneriaid Darparu yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod hyn yn fater pur sensitif, gan nad yw gwrthod dyfarniad dewisol yn rhywbeth poblogaidd, yn enwedig os nad yw'r ymgeisydd neu eu cynrychiolydd yn deall y rhesymau'n llawn. Yn ogystal, fel rhan o'r gwerthusiad hwn, mae NPS wedi rhoi gwybod inni am achosion lle'r oedd partneriaid ac ymgeiswyr, ar adegau, wedi bod yn flin a sarhaus dros y ffôn.

O ran ymdrin â cheisiadau, ar hyn o bryd, teimla'r Partneriaid Darparu y gallai'r staff wneud mwy i'w cynorthwyo. Er mwyn ceisio diffinio hyn, defnyddiasom amrywiaeth fach ar y 'sgôr hyrwyddo net' i asesu barnau'r Partneriaid Darparu³. Mae'r dull hwn o sgorio'n fesur gweddol 'galed' ac mae sgoriau negyddol yn gyffredin. Ar sail y gweithwyr achos Partneriaid Darparu a ymatebodd:

- (a) Sgôr gyfartalog gyffredinol yr 88 o ymatebwyr a deimlai y gallent wneud asesiad cadarn o berfformiad cynghorwyr NPS yw mymryn dros 6 allan o 10. Os defnyddir y mesur hyrwyddo net, fe wnaeth y cynghorwyr sgorio minws 47% (88 ymatebion gyda 10% yn hyrwyddo llai 57% negyddol, gyda 33% o ymatebion goddefol).
- (b) Sgôr gyfartalog gyffredinol yr 87 o ymatebwyr a wnaeth asesiad o berfformiad cyffredinol y sefydliadau sy'n rhedeg prosesau'r Gronfa yw 6.4 allan o 10. Os defnyddir y mesur hyrwyddo net, sgoriodd gwasanaeth DAF minws 36% (87 o ymatebion gydag 8% yn hyrwyddo, llai 44% negyddol, gyda 48% o ymatebion goddefol).

Unwaith eto, mae'r gwerthusiad hwn wedi canfod bod barnau gweithwyr achos yn cael eu dylanwadu gan eu diffyg gwybodaeth o'r cyfyngiadau polisi a roddir ar y cynghorwyr, y gwiriadau y mae'n rhaid i Ganolfan Fusnes NPS eu gwneud i rwystro twyll ac eglurder y rhesymau pam fod rhai cheisiadau'n cael eu gwrthod.

Credwn y byddai mwy o dryloywder gyda'r materion hyn a'u cyfleu'n well i'r rhwydwaith Partneriaid Darparu yn gwella delwedd y cynghorwyr yn yr hyn sydd, ar adegau, yn rôl anodd. Rydym yn argymhell hefyd fod NPS yn defnyddio'r sgoriau yr ydym wedi eu cael fel gwaelodlin i fesur cynnydd ohoni yn y dyfodol.

- (4) Gwella'r prosesau gwireddu a dosbarthu nwyddau, gwasanaethau ac arian i ymgeiswyr:

Ymddengys fod y prosesau gwireddu'n gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon trwy FFT a'u rhwydwaith o gyflenwyr. Mae dyfarniadau y mae Canolfan Fusnes NPS yn eu hysbysu i FFC yn cael eu gosod fel blaen archebion ar gyflenwyr sy'n darparu i lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt.

Teimlai 84% o'r Partneriaid Darparu a ymatebodd i'r cwestiwn penodol hwn yn ein cyfweiliadau ffôn mai'r dull cyflenwi o ddarparu nwyddau yn hytrach nag arian yw'r ffordd fwyaf addas o wireddu'r dyfarniad. Y prif achosion pryder oedd hygyrchedd rhai o'r

³ Caiff y sgôr hyrwyddo net ei defnyddio'n helaeth i asesu barnau cwsmeriaid am wasanaeth. Mae'n seiliedig ar y niferoedd o ymatebwyr sy'n debygol o argymhell y gwasanaeth i'w cydweithwyr, cyfeillion a'u teulu ar raddfa o 0 i 10 - gyda 0 yn gyfystyr â 'dim o gwbl' a 10 yn 'heb unrhyw amheuaeth'. Caiff y sgôr ei chyfrifo wedyn fel hyrwyddwyr, sef y rheini sy'n graddio eu hymateb yn 9 neu 10, llai y negyddwyr, sef y rheini sy'n graddio eu hymateb yn 6 neu lai. Caiff y rheini sy'n sgorio 7 neu 8 eu hystyried yn ymatebwyr goddefol a chânt eu diystyru o'r cyfrifiad. Ar gyfer yr asesiad hwn defnyddiasom raddfa o 1 i 10.

siopau/darparwyr ac a ellid cael gwell Gwerth am Arian mewn rhai achosion trwy ddarparu nwyddau ail-law o ffynonellau dibynadwy.

O'r 50 o Bartneriaid Darparu a ymatebodd i'n cwestiwn ar hygrychedd y cwmnïau gwireddau, cafodd Argos ei raddio fel hawdd iawn neu eithaf hawdd eu cyrraedd (84%), gydag Euronics, Homebase a Park Clothing yn cael eu graddio 56%, 54% a 12% yn yr un cwestiwn⁴. Un o'r themâu parhaus oedd yr anawsterau i unigolion gydag anghenion arbennig a'u gallu i deithio i'r amrywiol siopau, gan y gallai rhai ohonynt fod yn 20 milltir o'u cartref.

Er mai dim ond 41% o'r 96 o Bartneriaid Darparu a ymatebodd a gytunai bod y drefn wireddu bresennol yn cynnig gwerth da am arian, teimlai 27% pellach na allent gynnig barn y naill ffordd na'r llall. Yn ein barn ni, mae asesiadau Gwerth am Arian bob amser yn 'farnau personol' gan fod ymatebwyr yn aml heb fod yn gwybod cost lawn perchnogaeth/darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau.

Gallai fod dadl dros gontracio gyda chyflenwyr uchel eu parch o nwyddau ail-law ond byddai ar hyn angen ymchwilio pellach ac mae angen ailasesu'r cydbwysedd rhwng effeithlonrwydd gweithredu, y lleihad mewn costau a dibynadwyedd nwyddau cyn ystyried unrhyw newid.

(5) Gwelliannau eraill posibl i'r ffordd y gweithreidir y Gronfa:

Yn ein harolwg, fe wnaeth y Partneriaid Darparu rai awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella'r cynllun.

- (a) Teimlai ychydig dros 65% o'r 98 o ymatebwyr y gellid gwella'r broses o wneud ceisiadau. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys symleiddio'r ffurflenni cais, rhoi mwy o ganllawiau ar yr hyn y gellir ac na ellir ei ariannu, ac ymddiried mwy yn y Partneriaid Darparu.
- (b) Ymestyn yr ystod o nwyddau a gwasanaethau y gellir eu cynnwys yn arferol mewn dyfarniadau, megis carpedi mewn amgylchiadau addas.
- (c) Rhoi mwy o ddewisiadau derbyn i ymgeiswyr ag anghenion arbennig neu sydd â chyllidebau cyfyngedig i dalu am deithio neu ag anawsterau teithio a chludo nwyddau'n ôl o'r siopau gwireddu.

Deallwn fod y Partneriaid Darparu wedi cynnig awgrymiadau tebyg i Lywodraeth Cymru yn y cyfarfodydd ymgynghorol rheolaidd sy'n digwydd ac sy'n cael eu cynnal gan NPS ac FFT. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n trefnu cyfres o weithdai adolygu/cynllunio prosesau rhwng NPS a'r Partneriaid Darparu i adnabod a gweithredu'r gwelliannau y gellir eu gwneud i bob cam yn y broses ymgeisio, a gweithredu ar ganlyniadau cost effeithiol y cytunir arnynt.

⁴ Ni ofynasom ynghylch lleoliadau PayPoint gan fod y rhain ar gael mewn dros 27,000 o siopau a manau eraill yng Nghymru.

(6) Adrodd ac archwilio.

Mae NPS a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y cyd ar set o adroddiadau cyfnodol i fonitro gweithgaredd a gwariant ar y Gronfa. Mae NPS wedi cynhyrchu'r rhain yn unol â'r trefniant ac wedi eu defnyddio i fel sail o wybodaeth ar gyfer trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod rheolaidd i fonitro contractau.

Mae NPS wedi cadarnhau bod yr adroddiadau hyn yn gywir ond yn cynnwys gwahaniaethau yn y data oherwydd yr amrywiol amserau y tynnir y data o'r systemau cyfrifiadurol. Er y gallai'r dull hwn o adrodd gweithgaredd fod wedi bod yn ddigonol yn ystod camau cynnar y rhaglen, mae angen rhoi sylw i'r gwahaniaethau hyn i wella hygredd yr hyn sydd fel arall yn becyn da ar gyfer monitro perfformiad.

Absenoldeb gweithdrefnau prosesu cyfnodau llawn yw prif achos y gwahaniaethau amseroedd sy'n creu'r anghysondebau ymddangosiadol hyn. Ar hyn o bryd, nid yw prosesu diwedd cyfnodau ond yn digwydd ar gyfer agweddau gwireddu a Rheoli Trysorlys y Gronfa, sef gwaith a wneir gan FFT, ac nid yw'n digwydd ar gyfer y camau cychwynnol o brosesu ceisiadau a wneir yng Nghanolfan Fusnes NPS. Byddai'r adroddiadau'n elwa o gyflwyno gweithdrefnau prosesu diwedd cyfnodau llawn ac o gael tablau wedi eu cysoni'n llawn ar draws yr amrywiol gyfnodau yn y prosesau ymgeisio, dyfarnu a gwireddu. Byddai hyn yn gwella cysondeb yn yr adroddiadau ac yn galluogi NPS i gymryd copïau o'r data gwaelodol ar ddiwedd y cyfnod a fyddai'n cadarnhau unrhyw archwiliad o lefelau gweithgaredd ar ddiwedd pob cyfnod.

Fe wnaeth Blue Alumni asesu cryfderau a gwendidau'r rheolaethau ariannol o fewn y prosesau a chanfod yr arferion ariannol i fod yn gyffredinol gryf. Mae NPS yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r risg posibl o geisiadau twyllodrus, yn adolygu'r rhain gyda Llywodraeth Cymru ac yn cytuno ar gamau gweithredu i'w lleihau.

Rydym wedi nodi ychydig o feysydd lle gellid gwella'r rheolaethau. Y rhain yw:

- (a) Cwblhau gwiriadau mwy ffurfiol ar addasrwydd Partneriaid Darparu er mwyn eu 'hachredu'. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru lacio'r gofyn gwreiddiol hwn ar gyfer y rhaglen er mwyn cael y rhwydwaith Partneriaid Gweithredu yn ei le yn gyflym. Argymhellwn ailedrych ar y penderfyniad hwn yn enwedig os gwneir mwy o ddefnydd o'r rhwydwaith Partneriaid Darparu yn y dyfodol.
- (b) Rhoi mwy o ganllawiau ar yr amgylchiadau lle gellir defnyddio disgresiwn wrth wneud penderfyniadau a rhannu hyn gyda'r Partneriaid Darparu er mwyn gwella tryloywder a chysondeb.
- (c) Cyflwyno prosesu diwedd cyfnodau llawn fel y nodir yn fanwl uchod.
- (d) Trefnu bod archwiliad ffurfiol - gorau oll archwiliad allanol fel y rhagwelwyd yn wreiddiol - o brosesu ceisiadau a dyfarniadau

yng Nghanolfan Fusnes NPS. Ar hyn o bryd, dim ond agweddau Gwireddu a Rheoli Trysorlys y Gronfa sy'n destun archwiliadau mewnol ac allanol.

(7) Gwerth am arian.

Mae costau prosesu tua £34 y cais, a chredwn fod hyn yn rhesymol i raglen sy'n gorfod cydbwysu'r atebolrwydd am ddyfarnu cyllid Llywodraeth Cymru, cyrraedd pob rhan o Gymru a gweithio i lefelau gwasanaeth tynn.

Mae'r costau prosesu hyn yn cymharu'n rhesymol â'r grantiau IAP sydd tua £1,000 neu fwy. Fodd bynnag, wrth ystyried taliadau brys o tua £30, rhaid cofio bod yr un gwiriadau'n gorfod cael eu gwneud er mwyn sicrhau uniondeb. Gallai gweithredu amryw o'r awgrymiadau a'r argymhellion yr ydym wedi eu gwneud leihau lefel yr ymdrech sydd ei angen wrth brosesu. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried gosod targedau ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd mewn costau prosesu yng nghanau nesaf y Gronfa.

Un dewis allai fod gwneud mwy o ddefnydd o'r rhwydwaith Partneriaid Darparu (gweler hefyd (1) uchod). Maent wyneb yn wyneb ag ymgeiswyr ac yn y sefyllfa orau i asesu anghenion cleientiaid; cael gwared ar geisiadau anghymwys; a gwneud mwy o geisiadau ar-lein. Gallai gwirio hunaniaeth, dyfarnu terfynol a thaliadau ddal i gael eu gwneud trwy'r system bresennol. Gallai'r dull hwn gyflymu'r broses ymgeisio a lleihau costau yr un pryd, a dylid ei archwilio ymhellach.